




PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

AROLWG BLYNYDDOL 2015-2016



CYNNWYS



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

3 RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

4-9 UCHAFBWYNTIAU 15/16

10-13 YMCHWIL

Ymchwil Bangor yn cael effaith fyd-eang

Uwchlensys: Gweld yr 'anweledig'

Argymhellion i gryfhau System Cyfiawnder Gweinyddol Cymru

Esboniad ar y "paradocs niwed alcohol"

14-15 DYSGU AC ADDYSGU

Canlyniadau gwych am y drydedd flwyddyn yn olynol

O'r brifysgol i fyd gwaith

Ennyn cyfraniad myfyrwyr

16-17 RHYNGWLADOLI

Coleg Rhyngwladol Bangor

Partneriaethau rhyngwladol

Ysgolheigion Chevening

18-19 CYFRWNG CYMRAEG

Arwain y sector fel y prif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg

Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

Canolfan Bedwyr yn dathlu 20 mlynedd

20-22 CYMUNED

Agoriad Pontio

Rhwydwaith dementia newydd

Caru eich dillad

LLYWODRAETHU

Y Cyngor yw corff llywodraethol y Brifysgol, a chyfarfu bedair waith yn 2015/16 dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC. Ysgrifennydd y Brifysgol yw Dr Kevin Mundy. Caiff y Cyngor ei gynorthwyo gan nifer o is-bwyllgorau, yn cynnwys y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a gadeirir gan y Trysorydd, Mr David Williams, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a gadeirir gan Dr Griff Jones, gyda'r ddau wedi cyfarfod pum gwaith. Dyma bwyllgorau eraill y Cyngor a gyfarfu yn ystod y flwyddyn sef y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, Pwyllgor Moeseg, Pwyllgor Dwyieithrwydd, Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Mae rhagor o wybodaeth am drefn llywodraethu'r Brifysgol yn www.bangor.ac.uk/about/management.php.cy

Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

01248 383298 ywasg@bangor.ac.uk www.bangor.ac.uk

RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

Yn ystod y flwyddyn dan sylw mae Prifysgol Bangor wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn amryw o feysydd unwaith eto.

Roedd agor ein safle £40m yn y Santes Fair yn uchafbwynt arbennig. Mae pentref myfyrwyr y Santes Fair yn cynnwys 600 o ystafelloedd amrywiol, gan gynnwys fflatiau stiwdio a thai tref. Mae yna hefyd gaffi, siop, ystafelloedd cyffredin ac ystafelloedd chwaraeon a ffitrwydd ar y safle.

Ar yr un pryd, cynyddodd gweithgareddau Pontio ar ôl i'r adeilad agor yn raddol, a chafodd myfyrwyr a'r gymuned leol gyfle i wneud defnydd o'r adnoddau rhagorol yn yr adeilad, sy'n cynnwys ystafelloedd darlithio, mannau arloesi, mannau dysgu cymdeithasol, caffis a bwytai, yn ogystal â'r sinema, y theatr a'r theatr stiwdio.

Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd gyda'r gwaith o gynllunio ein parc gwyddoniaeth newydd ar Ynys Môn, a gefnogir gan gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae gwaith cychwynnol eisoes wedi cael ei wneud ar y safle a byddwn yn gweld llawer mwy o weithgarwch ar y safle y flwyddyn nesaf.

Agorwyd adeilad newydd Canolfan Môr Cymru ym Mhorthaethwy yn swyddogol. Mae'r ganolfan genedlaethol hon yn darparu arbenigedd i weithredwyr masnachol ac asiantaethau yn y sector môr yng Nghymru, sy'n prysur gynyddu.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi dechrau cynllunio ailddatblygiad sylweddol i'r safle wyddoniaeth ar hyd Ffordd Deiniol. Yn ystod y flwyddyn, dechreuwyd ar y camau cychwynnol o ddatblygu'r safle, a oedd yn cynnwys dymchwel adeiladau y tu ôl i'r Adeilad Coffa. Yn ystod y blynnyddoedd nesaf, byddwn yn cymryd camau pellach fel y bydd ein Strategaeth Ystadau yn cael ei gweithredu.

Unwaith eto eleni, cafodd Bangor

ganlyniadau gwych yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Rhoddodd ein myfyrwyr sgôr o 90% am foddhad cyffredinol, sy'n ein gosod ymysg y 15 prifysgol uchaf yn y DU sy'n cynnig amrywiaeth eang o bynciau.

Mae'r canlyniadau yn rhoi Bangor yn y 4ydd safle yn y DU am y gefnogaeth academiaidd a roddir i fyfyrwyr, a chafodd saith pwnc yn y brifysgol gyfradd bodddhad o 100%, gan eu gosod ar frig eu categori: Astudiaethau Saesneg; Daeareg; Newyddiaduraeth; Ieithyddiaeth; Technoleg Feddygol; Cerddoriaeth; a Gwyddorau Eigion. Mae Newyddiaduraeth yn y safle 1af yn y DU am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Mae saith maes pwnc arall yn y 10 uchaf yn y DU: Seicoleg (4ydd yn y DU); Peirianeg Electronig; Amaethyddiaeth; Astudiaethau'r Cyfryngau; Cyllid; Athroniaeth; ac Astudiaethau Iberaidd.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, mae nifer o faterion o bwys yn ein hwynebu ni a'r sector.

Rydym yn wynebu ansicrwydd ynghylch Brexit a chanlyniadau adolygiad Diamond o gyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru. Ar yr un pryd, mae'r sefyllfa economaidd gyffredinol yn ogystal â newidiadau demograffig gyda'i gilydd yn golygu y gallai'r cyfnod hwn fod yn un cythryblus i brifysgolion.

Bydd hyn yn golygu bod rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd, wrth i ni geisio addasu a pharatoi at wrthsefyll y newidiadau hyn fel y gallwn barhau i ffynnu yn y dyfodol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi fy niolch i aelodau'r Cyngor ac i aelodau staff ar draws y brifysgol am eu cefnogaeth a'u cyfraniad at yr hyn a fu, unwaith eto, yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Brifysgol Bangor.

Yr Athro John G Hughes
Llywydd ac Is-ganghellor



UCHAFBWYNTIAU



1

1 Helena Robinson yn derbyn y Fedal Ebola gan yr Athro John G Hughes, Is-ganghellor.



2

2 Lansiad Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor. O'r chwith: Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol Cymru; Yr Athro Julie Williams, Prif Gyngorydd Gwyddonol Cymru; yr Athro David Shepherd, Dirprwy Is-ganghellor; Yr Athro Clare Wilkinson, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd; yr Athro Jo Rycroft-Malone, Dirprwy Is-ganghellor; Yr Athro Chris Burton, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd a'r Athro Nichola Callow, Deon Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad.

Derbynodd Helena Robinson, myfyrwraig PhD yn yr **Ysgol Gwyddorau Meddygol** y Fedal Ebola mewn cydnabyddiaeth o'i dewrder ac ymroddiad wrth fynd i'r afael â'r argyfwng yng Ngorllewin Affrica. Derbyniodd Helena y Fedal Ebola yn dilyn cyfnod o bum wythnos yn Sierra Leone ym mis Rhagfyr 2014.

Lansiwyd **Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR)**, a fydd yn hwyluso ymchwil fwy rhyngddisgyblaethol sy'n pontio darganfyddiadau yn y labordy ac ymchwil sy'n datrys problemau iechyd cymhleth yn y byd go iawn. Gan weithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, bydd BIHMR yn cyfrannu at ymchwil gadarn yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng ngogledd Cymru, gan ganolbwyntio'n neilltuo ar feysydd rhagoriaeth; er enghraifft, dementia, canser ac adferiad, a meysydd lle mae timau o Fangor wedi datblygu dulliau newydd i wneud ymchwil o'r ansawdd uchaf.

Cipiodd Gwen Elin, myfyrwraig yn **Ysgol y Gymraeg**, Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2015 gwerth £4,000 mewn cyngerdd gwefreiddiol a gafodd ei ddarlledu yn fyw ar S4C.

Etholwyd Yr Athro Emeritws Tom Corns o'r **Ysgol Llenyddiaeth Saesneg** a'r Athro Nancy Edwards o'r **Ysgol Hanes ac Archeoleg** yn Gymrodorion yr Academi Brydeinig (FBA), yr anrhydedd uchaf y gall ysgolhaig yn y celfyddydau a'r dyniaethau ei gael ym Mhrydain. Mae'r Athro Corns yn arbenigwr o fri rhyngwladol ar lenyddiaeth Saesneg yr ail ganrif ar bymtheg ac, yn arbennig, mae'n awdurdod blaenllaw ar waith John Milton, awdur y gerdd epig fawr Saesneg, *Paradise Lost*. Mae'r Athro Edwards yn arbenigwr ar archaeoleg ganoloesol ac wedi derbyn y gymrodoriaeth mewn cydnabyddiaeth o'i chyfraniad nodedig i ymchwil mewn archeoleg.

Cafodd buddsoddiad newydd gwerth £12m ar gyfer economi 'gwyredd' Cymru ei gyhoeddi gan Jane Hutt, Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Bydd prosiect BEACON+, gyda chefnogaeth ariannol gwerth £8m o gyllid yr UE, yn galluogi gwyddonwyr o Brifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu deunyddiau, tanwyddau a chemegau adnewyddadwy. Bydd y cyllid yn galluogi arbenigwyr bioburo i ddatblygu ymchwil a chynnyrch arloesol gyda 100 o fusnesau bach a chanolig yn y gogledd, y gorllewin a chymoedd y de.





3 Benjamin Butler (chwith) gyda John Giffard, Meistr Frethynnwr a Géraldine Derroire (dde).

Cafodd Prifysgol Bangor ei rhestru ymhlith y 200 o brifysgolion mwyaf rhyngwladol ledled y byd a'r brifysgol fwyaf rhyngwladol yng Nghymru mewn tabl a gaiff ei lunio ar sail data rhestr safleoedd prifysgolion y byd y *Times Higher Education*. Daw'r Brifysgol ymhlith y 350 o brifysgolion uchaf yn y byd.

sy'n agosáu at ddiwedd ei PhD mewn Geocemeg Forol. Astudiodd Benjamin am radd israddedig yn yr **Ysgol Cemeeg** ac am radd ôl-raddedig yn yr **Ysgol Gwyddorau Eigion** cyn dechrau ar ei PhD yn 2012. Enillodd Géraldine Derroire fedal efydd y Brethynwyr. Mae Géraldine yn y tri mis olaf o orffen ei PhD ar ecoleg coedwigoedd trofannol sych, drwy Raglen Doethuriaeth Erasmus Mundus FONASO (*Forest and Nature for Society*) yn **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth**.

4 Llŷr Titus gyda'r wobwr 'Dramodydd Gorau yn yr iaith Gymraeg'.

Teithiodd yr Athro Jerry Hunter, Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg) i America i olrhain hanes y Cymro Evan Jones ac i ddysgu mwy am genedl y Cherokee ar gyfer cyfres dair-rhan ar S4C. Roedd y gyfres yn olrhain hanes taith Evan Jones o Laneigon, Powys i Ogledd Carolina. Yno, sefydlodd Evan Jones fel cenhadwr a dysgu'r iaith frodorol er mwyn hwyluso'i waith. Pan orfodwyd y Cherokee i adael eu tir, aeth Evan Jones gyda nhw hefyd.

Cipiodd Llŷr Titus, myfyriwr ymchwil yn **Ysgol y Gymraeg**, wobwr 'Dramodydd gorau yn yr iaith Gymraeg'. Derbyniodd Llŷr y wobwr am ei ddrama *Drych* a gyfansoddodd fel rhan o gwrs sgriptio Cwmni'r Frân Wen, 'Sgript i Lwyfan', a lwyfannwyd yn genedlaethol y llynedd.

Mae Cwmni'r Brethynwyr yn un o Gwmnïau Lifrai hanesyddol Dinas Llundain. Bob blwyddyn byddant yn ddigon caredig i roi dwy fedal i'w dyfarnu i fyfyrwyr ôl-radd nodedig. Dyfarnwyd medal arian Cwmni'r Brethynwyr i Benjamin Butler,





5 Elizabeth McManus a dderbyniodd y fwsariaeth 'Menywod mewn Gwyddoniaeth' gyntaf, sy'n ei chaniatáu i astudio cwrs Niwroddelweddu ôl-raddedig.

Drwy ymrwmo i gynyddu cyfranogiad merched mewn gwyddoniaeth ar bob lefel addysg, dyfarnodd y Brifysgol y fwsariaeth arloesol 'Menywod mewn Gwyddoniaeth' gyntaf, gwerth £8,000 i Elizabeth McManus a raddiodd o'r **Ysgol Seicoleg**. Mae'r fwsariaeth yn caniatáu Elizabeth i astudio cwrs MSc Niwroddelweddu gyda'r nod o ddilyn gyrfa yn y maes.

Cyhoeddodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ganlyniadau Etholiad 2016 am Gymrodyr newydd. O'r Cymrodyr newydd eleni, roedd saith o Brifysgol Bangor: Yr Athro Emeritws Ronald Brown, **Ysgol Cyfrifiadureg**; Yr Athro Eryl Wynn Davies, Pennaeth, **Ysgol Athroniaeth a Chrefydd**; Yr Athro Peredur Lynch, **Ysgol y Gymraeg**; Yr Athro Gareth Ffowc Roberts, Athro Emeritws **Addysg**; Yr Athro Robert Rogers, **Ysgol Seicoleg**; Yr Athro Carol Tully, Dirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr) ac Athro Almaeneg; Yr Athro Gerwyn Williams, Pennaeth **Ysgol y Gymraeg**.

Enillodd Megan Elias, myfyrwraig yn ei hail flwyddyn yn **Ysgol y Gymraeg**, Fedal y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir y Fflint. Mae Medal y Dysgwyr yn cael ei dyfarnu i unigolyn sydd yn dangos sut y mae ef neu hi yn defnyddio'r iaith bob dydd yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol a hefyd yn gymdeithasol.



Enillodd Prifysgol Bangor wobwr 'Cyflogwr y Flwyddyn' (y sector cyhoeddus) yng Ngwobrau 'Womanspire' Chwarae Teg. Mae'r cynllun gwobrau newydd hwn yn cydnabod y cyfraniad neilltuol a wneir gan fenywod ym mhob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru a'i nod yw symbylu menywod y dyfodol i lwyddo a ffynnu.

Lansiwyd Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth 2 (KESS 2) gwerth £36m yng Nghymru gyda chefnogaeth yr UE, a bydd yn partneru dros 500 o fusnesau gydag academyddion a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i ddatblygu prosiectau ymchwil arloesol sy'n anelu at ysgogi twf busnes. Bydd y cynllun yn caniatáu i dros 600 o fyfyrwyr ôl-radd fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu hunain fel gweithwyr ymchwil proffesiynol fel rhan o raglenni Meistr Ymchwil a PhD a gaiff eu hariannu drwy'r cynllun. Arweinir KESS 2 gan Brifysgol Bangor ar ran y sector AU yng Nghymru, lle bydd yn gweithredu yng ngogledd a gorllewin Cymru yn ogystal â chymoedd y de dros y chwe blynedd nesaf.



6 Aelodau staff Adran Adnoddau Dynol (o'r chwith): Catherine Lees, Nia Meacher a Dr Alison Wiggett gyda chynrychiolwr noddwyr Gwobr Cyflogwr y Flwyddyn, *Highgrade Recruitment*.
Hawlfraint: Gwobrau 'Womanspire' Chwarae Teg 2016.

7 Matt Day, Is-lywydd Cymdeithasau a'r Gymuned, Undeb Myfyrwyr Bangor, gyda'r wobwr am gyfraniad eithriadol.



Enillodd Matt Day, Is-lywydd Cymdeithasau a'r Gymuned **Undeb Myfyrwyr** Bangor fwsariaeth wedi'i noddi am gyfraniad eithriadol yng Ngwobrau Cenedlaethol Cymdeithasau Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM), y digwyddiad cenedlaethol cyntaf i roi cydnabyddiaeth i gymdeithasau undebau myfyrwyr am eu cyfraniad i ragolygon gyrfya a phrofiad myfyrwyr dros eu cyfnod yn y brifysgol.

Derbyniodd yr **Ysgol Seicoleg** wobwr Efydd Athena SWAN gan yr Equality Challenge Unit. Mae'r Equality Challenge Unit yn cefnogi sefydliadau addysg uwch ar draws y DU i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth i holl staff a myfyrwyr. Mae siarter Athena SWAN yr Equality Challenge Unit yn cydnabod yn benodol ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiâu o fewn addysg uwch.

Cafodd Prifysgol Bangor wobwr o bwys o ganlyniad uniongyrchol i adolygiadau gwybch gan ei myfyrwyr. Derbyniodd y Brifysgol saith enwebiad allan o ddeg categori yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr *Whatuni* 2016, gan gynnwys un am Brifysgol y Flwyddyn. Llwyddodd i gipio'r Wobwr ar gyfer y Llety Myfyrwyr Gorau mewn unrhyw Brifysgol. Hefyd, cafodd y Brifysgol ei henwi'n ail yn y DU ar gyfer Cyrsiau a Darlithoedd, trydydd yn y DU ar gyfer Cefnogaeth i Fyfyrwyr, ac yn bedwerydd yn y prif gategori am Brifysgol y Flwyddyn. Bu cyfanswm o

125 prifysgol yn y DU yn cystadlu yn y gwobrau eleni.

Mae'r **Ganolfan BioGyfansoddion** wedi cael ei derbyn yn 'brifysgol rhwydwaith' gan yr *Ellen MacArthur Foundation*, elusen sy'n hyrwyddo cysyniad yr 'economi gylchog'. Drwy arddangos gwaith academiaidd perthnasol ar lwyfan byd, mae'r elusen yn ceisio sicrhau cydweithio a chyfnewid gwybodaeth ymhlith llunwyr polisi, byd busnes ac academia y tu allan i'w rhaglenni ffurfiol. Gan ymuno â chriw dethol o brifysgolion eraill, bydd Canolfan BioGyfansoddion Prifysgol Bangor yn rhannu rhywfaint o'i arbenigeddau arloesol ym maes datrysiadau busnes gyda'r *Ellen MacArthur Foundation*, gan atgyfnerthu enw da'r Brifysgol yn rhyngwladol ym maes cynaliadwyedd.

Daeth myfyrwraig PhD yn yr **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon**, Gabriella Rossetti, 24, y bedwaredd ferch yn y byd ac un o'r rhai ieuengaf erioed i gael gwregys du ail radd mewn Jiu Jitsu Japaneaidd.

Dyfarnwyd gwobr cyflawniad rhagoriaeth gan Deyrnas Saudi Arabia i Othman Alzahrani, myfyriwr trydedd flwyddyn PhD geneteg a bioleg foleciwlaidd yn yr **Ysgol Gwyddorau Meddygol**. I gydnabod hyn bydd enw Othman yn cael ei argraffu ar y gofrestr anrhydedd yn Llysgenhadaeth Saudi Arabia yn Llundain.



8

8 Agorodd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru (dde) Canolfan Môr Cymru yn swyddogol. Gyda'r Athro John G Hughes, Is-ganghellor (chwith).




Agorwyd Canolfan Môr Cymru yn yr **Ysgol Gwyddorau Eigion** yn swyddogol gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru. Codwyd Canolfan Môr Cymru am £5.5m ac mae hi'n ganolfan genedlaethol ar gyfer y sector morol sy'n tyfu yng Nghymru. Mae'r ganolfan yn cynnig ffocws a mynediad i arbenigedd ac yn rhoi lle i ymchwilwyr, gweithredwyr masnachol ac asiantaethau eraill yn sector morol Cymru gydweithio.

Enillodd yr Athro Andrew Hiscock, **Ysgol Llenyddiaeth Saesneg**, Gymrodoriaeth Marie Curie, un o wobrau mwyaf cystadleuol a nodedig Ewrop a'u bwriad yw meithrin ymchwil rhyngddisgyblaethol, hyfforddiant academaidd arloesol a chydweithio rhyngwladol.

Dechreuodd staff yr **Ysgol Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth** addysgu carfan gyntaf y cwrs gradd BSc (Anrh) Coedwigaeth a Rheoli Amgylcheddol yng Ngholeg Tsieina Bangor.

Cyflwynwyd cymrodoriaethau er anrhydedd i nifer o bobl yn seremonïau graddio'r Brifysgol. Dyma nhw: Prif Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Fyddin a raddiodd o Fangor, **Uwchfrigadydd Susan Ridge**; Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru a raddiodd o Fangor, **Rhian Huws-Williams**; cyn Prif Swyddog Meddygol Cymru, **Ruth Hussey OBE CB**; Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Sefydliad Gwyddoniaeth Cenedlaethol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwyddorau Biologol, yr **Athro John Wingfield**; **Glyn Watkin Jones** o gwmni adeiladu Watkin Jones a'i Fab Cyf; y cerflunydd enwog, **John Meirion Morris**; Cyn Is-ganghellor Prifysgol Bangor, yr **Athro Merfyn Jones CBE**; y soprano operatig adnabyddus; **Elin Manahan Thomas**; yr **Athro John Porter** a raddiodd o Fangor; Llywodraethwr Banc Canolog Bahrain, **Ei Ardderchowgrwydd Rasheed Mohammed Al Maraj**; a thad a merch, yr actor **J.O. Roberts** a'r ddarlledwraig **Nia Roberts**. Yn anffodus, bu farw J.O. Roberts yn fuan ar ôl yr wythnos raddio.

- 9 Uwchfrigadydd Susan Ridge
- 10 Rhian Huws-Williams
- 11 Ruth Hussey CB OBE
- 12 Yr Athro John Wingfield
- 13 Glyn Watkin Jones
- 14 John Meirion Morris
- 15 Yr Athro Merfyn Jones CBE
- 16 Elin Manahan Thomas
- 17 Yr Athro John Porter
- 18 Ei Ardderchowgrwydd Rasheed Mohammed Al Maraj
- 19 J.O. Roberts a Nia Roberts



YMCHWIL BANGOR YN CAEL EFFAITH FYD-EANG

Mae ymchwil ym Mhrifysgol Bangor yn cael effaith ar fywydau pobl ledled y byd.

Mae tri project ymchwil yn y Brifysgol wedi eu cynnwys ymhlith yr 20 enghraifft mwyaf trawiadol o ymchwil prifysgol sy'n cyfrannu at ddatblygu. Cawsant eu dewis o blith bron i 7,000 o brojectau ymchwil mewn prifysgolion yn y DU gan yr UK Collaborative on Development Sciences (UKCDS). Grŵp o 14 adran Llywodraeth y DU a chyllidwyr ymchwil sy'n gweithio ym maes datblygu rhyngwladol yw'r UKCDS.

Mae gwaith Prifysgol Bangor ar wella cnydau yn astudiaeth achos wych o'r modd y gall ymchwil o'r DU gael effaith fyd-eang; yn yr achos hwn drwy gynyddu diogelwch bwyd i tua 3 miliwn o bobl.

Mae'r gwaith gan yn Athro John Witcombe o Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth wedi datblygu straen o filed perlog sy'n gwrthsefyll clefydau. Mae miled yn brif gnwd i drwch y boblogaeth drwy Affrica a Deheudir Asia. Bob blwyddyn mae colledion enfawr i'r cynhaeaf oherwydd y clefyd llwydni blewog. Erbyn hyn, mae'r math newydd sy'n gwrthsefyll y clefyd yn cael ei dyfu'n eang yn India gan alluogi systemau ffermio hydwyth yn ogystal â chreu gwaith i ferched lleol. Dyma

un enghraifft o rywogaethau newydd o gnydau newydd neu well a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Bangor, gyda chyfranogiad ffermwyr lleol yn Asia.

Hefyd wedi ei chynnwys mae partneriaeth ymchwil gyda'r nod o warchod bywoliaeth pobl leol drwy gefnogi cadwraeth ac adferiad coedwigoedd mangrof mewn rhannau o Kenya, lle mae cymunedau tlawd yn dibynnu'n helaeth ar yr adnoddau naturiol a'r ecosystem sy'n deillio o'r coedwigoedd mangrof.

Mae Dr Martin Skov o'r Ysgol Gwyddorau Eigion yn un o'r ymchwilwyr allweddol yn y DU sydd, trwy eu hymchwil, wedi cynorthwyo cymunedau lleol yn Kenya i ddechrau project masnachu carbon o fewn ecosystem fôr, sef mangroffau. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yn y byd. Mae'r cynllun yn dod â \$12-18,000 y flwyddyn i bobol Bae Gazi drwy dystysgrifau masnachu sy'n nodi'r CO² sydd yn cael ei ddal yn y mangroffau y mae'r pentrefwyr yn eu gwarchod. Mae'r elw'n ariannu projectau creu swyddi a rhai cymunedol, fel adeiladu adain newydd i'r ysgol a chyflenwad dŵr. Bellach, mae'r project yn cael ei gynnal gan y gymuned, ac yn cynnwys amrediad o weithgareddau cefnogol.

Mae Dr John Turner, hefyd o'r Ysgol Gwyddorau Eigion, wedi bod yn ymwneud yn agos â datblygu ac archwilio gwarchodfa fôr fwya'r byd, er mwyn cefnogi cadwraeth â phobol cefnfor India. Mae riffau cwrel ac ynsoedd y Chagos yng nghanol Cefnfor India yn rhan o Dirioaeth Dramor Prydain, a dyma'r amgylchedd môr mwyaf amrywiol o fewn tiriogaethau Prydain. Nid oes neb yn byw ar riffiau Chagos, ac nid yw gweithgaredd dynol yn effeithio bron ddim arnynt. Yno ceir y dŵr môr glanaf sydd erioed wedi ei brofi, ynghyd â chyfoeth biolegol a biomas a chynnyrch eithriadol. Mae defnyddio'r Chagos fel meincnod er mwyn cymhariaeth fiolegol yn rhoi sail gadarn ar gyfer adfer a rheoli riffiau eraill sydd wedi eu niweidio.

Meddai'r Athro David Shepherd, Dirprwy Is-ganghellor: "Ein nod yw i'n hymchwil gael effaith a dylanwad rhyngwladol cryf a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Mae hyn yn enghraifft wych o'r amryfal ymchwil sydd yn cael effaith economaidd sylweddol yn ogystal."

YMCHWIL



Riff yn cael ei harchwilio yng Nghefnfor India.



Dr Zengbo Wang gyda'r edau gwe sidan pryf cop sydd yn cael ei ddefnyddio fel uwchlens ychwanegol.

UWCHLENSYS: GWELD YR 'ANWELEDIG'

Ers dros ganrif mae gwyddonwyr wedi ymdrechu i ymestyn eglurder a manylder arferol microsgopau. Mae deddfau ffisegol goleuni yn ei gwneud yn amhosibl i weld pethau llai na 200 nm - maint y bacteria lleiaf - drwy ddefnyddio microsgop arferol yn unig. Fodd bynnag, uwchlensys fu'r nod newydd ers troad y mileniwm, gydag amrywiol labordai a thimau'n ymchwilio i wahanol fodolau a deunyddiau.

Mae gwyddonwyr yn yr Ysgol Peirianeg Electronig wedi cyflawni dwy gamp unigryw drwy ddatblygu'r uwchlens.

Dan arweiniad Dr Zengbo Wang

ym Mangor a'r Athro Limin Wu ym Mhrifysgol Fudan, Tsiena, mae'r tîm wedi creu strwythurau lens bychain iawn tebyg i ddefnyddiau ar yr arwyneb sydd i'w archwilio. Mae'r sfferau hyn, sydd wedi eu gwneud o filiynau o gleiniau nano, yn chwalu'r pelydryn goleuni. Mae pob glain yn gwro'r goleuni, gan weithredu fel pelydrau bychain unigol fel tortsh fechan. Maint bychan iawn pob pelydryn o oleuni yw'r hyn sy'n goleuo'r arwyneb, gan ymestyn gallu cydrannol y microsgop i lefelau nas gwelwyd o'r blaen.

Mae'r uwchlens newydd yn ychwanegu chwyddiad bum gwaith yn fwy na'r hyn y

gall microsgopau presennol ei gyflawni. (Sci. Adv. 2, e1600901 2016).

Mewn prosiect arall dan arweiniad Dr Zengbo Wang, mewn cydweithrediad â grŵp sidan Yr Athro Fritz Vollrath o Adran Sŵleg Prifysgol Rhydychen, maent yn egluro sut y maent wedi defnyddio deunydd naturiol - sef edau gwe sidan pryf cop - fel uwchlens ychwanegol, sy'n galluogi chwyddo pethau 2-3 gwaith yn fwy (Nano Lett., 16(9), 5842-5845, 2016).

Gellir defnyddio'r lensys hyn i weld a gwylio pethau oedd yn anweledig o'r blaen, yn cynnwys nano-strwythurau a micro-strwythurau biolegol yn ogystal â germau a firsau brodorol o bosibl.



ARGYMHELLION I GRYFHAU SYSTEM CYFIAWNDER GWEINYDDOL CYMRU

Comisiynwyd Ysgol y Gyfraith Bangor gan y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwilysoedd Cymru i gynnal yr ymchwil i gefnogi eu gwaith o warchod buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas â chyfiawnder gweinyddol yng Nghymru.

Mae cyfiawnder gweinyddol yn ymdrin â'r berthynas rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth ac mae'n cynnwys egwyddorion gwneud penderfyniadau da i gyrff cyhoeddus, sut mae pobl yn cwyno i'r gyrff hynny, yn ogystal â dulliau allanol o unioni cam fel y llysoedd, triwilysoedd, ombwdsymyn a chomisiynwyr sydd â chyfrifoldebau mewn gwahanol feysydd o fywyd cyhoeddus.

Bydd yr argymhellion gan Dr Sarah Nason o Ysgol y Gyfraith, yn galluogi rhoi ystyriaeth i'r ffordd orau ymlaen o ran cryfhau gallu pobl i weithredu'n effeithlon ac yn gymesur pan deimlant nad ydynt wedi cael y gwasanaeth neu'r

ymateb priodol gan nifer o wahanol gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Meddai Dr Sarah Nason:

"Mae cynnal yr ymchwil hwn wedi fy helpu i weld nad yw'r materion hyn wedi eu cyfyngu i Gymru, a bod gan Gymru gyfle arbennig yng nghyd-destun datganoli i ddatblygu system cyfiawnder gweinyddol arloesol y gellid ei defnyddio fel model i'w dilyn gan awdurdodaethau cyfreithiol bychain eraill ar draws y byd."

Meddai'r Athro Syr Adrian Webb, Cadeirydd Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwilysoedd Cymru,

"Mae Dr Nason wedi cynhyrchu adroddiad ymchwil gwerthfawr iawn a fydd yn helpu i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu system sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau dinasyddion Cymru, er nad oes dealltwriaeth dda o'r system honno."

ESBONIAD O'R PARADOCS NIWED ALCOHOL

Mae ymchwil cydweithredol newydd gan Brifysgol Bangor, Prifysgol Liverpool John Moores ac Alcohol Research UK yn esbonio pam mae pobl mewn cymunedau difreintiedig yn dioddef lefelau uwch o salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol na phobl mewn cymunedau nad ydynt yn ddifreintiedig, er eu bod yn yfed yr un faint o alcohol - y paradocs niwed alcohol.


Canfu'r astudiaeth, a gynhaliwyd yn Lloegr ac a gyhoeddwyd yn y *BMC Public Health*, fod pobl sy'n yfed yn drymach ac yn byw mewn cymunedau incwm isel yn fwy tebygol o gyfuno yfed o'r fath ag ymddygiadau eraill niweidiol i iechyd.

Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac sy'n yfed ar raddfeydd sy'n gyson â mwy o risgiau i iechyd, bron 11 gwaith yn fwy tebygol na phobl sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ddifreintiedig o gyfuno yfed ag ysmegu, cario gormod o bwysau, diet gwael a fawr ddim ymarfer corff. Nid yn unig bo'r cyfuniadau hyn yn ychwanegu at y peryglon o yfed alcohol, maent yn lluosogi'r risgiau sy'n arwain at iechyd gwael.


Dywedodd Yr Athro Mark Bellis, o'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd: "Roedd tua 9% o yfwyr risg uwch mewn cymunedau tlotach hefyd yn ysmegu, dros eu pwysau ac yn dilyn ffyrdd gwael o fyw o ran iechyd cyffredinol.

Gyda'i gilydd gall y cyfuniadau hyn greu straen enfawr ar gyrff pobl, sy'n drech na'u gallu i gyfyngu ar y niwed i iechyd a achosir gan alcohol. Mewn ardaloedd nad ydynt yn ddifreintiedig roedd llai nag 1% o'r bobl oedd yn yfed ar lefel oedd yn creu risg uwch iddynt hefyd yn dweud eu bod yn dilyn y tri ymddygiad arall oedd yn peryglu iechyd.

Gwelwyd bod yfwyr o ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o yfed gwirodydd a chwrrw na gwin a'u bod yn fwy tebygol o gael pyliau o yfed trwm na'r rhai oedd yn byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ddifreintiedig. Gall ymddygiad o'r fath gynyddu risg o anaf a chlefyd y galon o'i gymharu â phobl sy'n yfed yr un cyfanswm o alcohol ond dros fwy o sesiynau."



DYSGU AC ADDYSGU



CANLYNIADAU GWYCH AM Y DRYDEDD FLWYDDYN YN OLYNOL

Mae myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi rhoi sgôr o 90% i'r Brifysgol am foddhad cyffredinol, sy'n ei gosod ymysg y 15 prifysgol anarbenigol uchaf, sef y sefydliadau traddodiadol hynny sy'n cynnig ystod eang o bynciau, yn y DU. Daw'r canlyniadau hyn o'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.

Mae'r sgôr yn gosod Bangor yn gydradd â phrifysgolion fel Rhydychen a Chaergrawnt am y drydedd flwyddyn yn olynol ac yn dangos cysondeb yn y lefel uchel o foddhad ymhlith myfyrwyr Bangor. Priodolwyd y llwyddiant gan uwch aelodau staff y Brifysgol i safon uchel yr addysgu a'r profiad a gaiff myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor, ynghyd â pharodrwydd y Brifysgol i gydnabod unrhyw broblemau a gaiff myfyrwyr unigol a rhoi sylw iddynt.

Dywedodd yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu):

"Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu safon ragorol yr addysgu a gynnigir ym Mhrifysgol Bangor ac mae'n gadarnhad ardderchog o'n gweithgareddau a'n gwerthoedd. Mae ein llwyddiant eto eleni yn ganlyniad arbennig i ni fel sefydliad."

Daw'r canlyniadau o'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, sy'n arolwg o oddeutu hanner miliwn o fyfyrwyr sy'n graddio o brifysgolion yn y DU. Mae'r canlyniadau'n cynnig yr adborth mwyaf cynhwysfawr ar brofiad myfyrwyr ym mhob sefydliad, ac yn manylu at lefel ysgol, cwrs a rhaglen ac yn defnyddio gwybodaeth ehangach am feysydd megis addysgu ac asesu ac adborth.

Yn ôl y canlyniadau, mae Prifysgol Bangor yn 4ydd yn y DU am y gefnogaeth academiaidd a roddir i fyfyrwyr; ac mae'n gosod Bangor yn yr 20 uchaf o ran addysgu yn ogystal ag asesu ac adborth.

Llwyddodd saith pwnc i ennill graddfa foddhad o 100%, sy'n eu gosod ar frig tabl eu pwnc yn y DU: Astudiaethau Saesneg; Daeareg; Newyddiaduraeth; Ieithyddiaeth; Technoleg Feddygol; Cerddoriaeth; a Gwyddorau Eigion.

Mae saith maes pwnc pellach yn y 10 uchaf yn y DU: Seicoleg (4ydd yn y DU); Peirianeg Electronig; Amaethyddiaeth; Astudiaethau'r Cyfryngau; Cyllid; Athroniaeth; ac Astudiaethau Iberaidd.



O'R BRIFYSGOL I FYD GWAITH

Mae rheoli'r newid o'r brifysgol i waith llawn amser yn rhywbeth y mae llawer o fyfyrwyr yn teimlo nad ydynt wedi eu paratoi ar ei gyfer. Mae darlithwyr ym Mhrifysgol Bangor wedi datblygu dwsinau o fentrau i baratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd ar ôl y brifysgol.

O fewn yr Ysgol Seicoleg, darparwyd profiad mwy 'real' o Seicoleg Defnyddwyr, drwy gynnal project ymgynghorol mawr gyda nifer o wahanol fusnesau. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae myfyrwyr wedi gweithio mewn timau bach, dan arweiniad ymgynghorydd busnes profiadol, i baratoi ymchwil ar ran cwmnïau fel Cadbury, Unilever,

Tesco a LateRooms. Mae myfyrwyr wedi datblygu ymyriadau seicolegol i roi sylw i amrywiaeth o anghenion busnesau: o werthu rhagor o siocled mewn siopau bach, hysbysebu'n effeithiol ar y rhyngwrwyd at ostwng nifer y cwsmeriaid mewn gwestai sy'n canslo ar y munud olaf. Mae'r projectau hyn yn helpu CVs myfyrwyr i fod yn berthnasol ac yn golygu y gall myfyrwyr ddeall a goresgyn rhai o'r heriau o weithio â busnesau.

I baratoi ar gyfer y cyfweiliad anodd cyntaf, mae Dr Caroline Bowman yn cynnig ffug gyfweiliad i fyfyrwyr fel y gallant ddysgu nodi pa elfennau o'u harbenigedd academiaidd a all fod yn

Dr Caroline Bowman a Dr Steve Hosier yn rhoi ffug gyfweiliadau i'w myfyrwyr.

berthnasol ar gyfer eu swydd ddelfrydol. Mae'r cyfweiliad yn golygu y gall myfyrwyr ddefnyddio eu gwybodaeth academiaidd, a'u hannog i feddwl sut y gallant farchnata eu sgiliau trosglwyddadwy, yn arbennig drwy ganolbwyntio ar bethau sy'n eu gosod ar wahân i fyfyrwyr eraill a all feddu ar yr un sgiliau. Mae'r cyfweiliadau hyn yn rhoi adborth cynhwysfawr ac unigol i fyfyrwyr fel y gallant addasu eu hymatebion yn y ffordd fwyaf addas ar gyfer y llu o lwybrau gyrfaol sy'n agored iddynt.

ENNYN DIDDORDEB MYFYRWYR

Mae myfyrwyr Prifysgol Bangor yn chwarae rhan weithredol iawn yn arweinyddiaeth y Brifysgol ac yn natblygiad y rhaglenni academiaidd. Gwneir hyn drwy weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr ar amryw o projectau arloesol.

Eleni, mae ymrwymiad y Brifysgol i ennyn diddordeb myfyrwyr wedi cael ei adlewyrchu drwy greu swydd academiaidd uwch newydd: Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr.

Mae pob ysgol academiaidd wedi penodi Cyfarwyddwr, lle gwelir yr aelodau staff hyn yn cymryd yr awenau ar sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei glywed ac yn gweithredu arno. Mae'r Cyfarwyddwyr yn aelod o uwch dîm rheoli yr ysgol.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn sicrhau bod myfyrwyr newydd yn cael eu croesawu ac yn ymgartrefu yn eu bywyd newydd



ym Mangor. Maent yn gweithio gyda'r Arweinwyr Cyfoed yn ystod yr Wythnos Groeso a drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y profiad gorau posibl.

Mae arolygon wedi'u datblygu i'r myfyrwyr newydd eu cwblhau cyn iddynt gyrraedd ym Mangor. Mae hyn yn helpu'r Cyfarwyddwyr i ddeall disgwyliadau'r myfyrwyr o fywyd prifysgol, a chynnig y ffordd orau i'w helpu i gyflawni hyn.

Dr Lynda Yorke o'r Ysgol Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth gydag Arweinwyr Cyfoed a myfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn ystod yr Wythnos Groeso.

Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gweithio'n agos gyda Chynrychiolwyr Cwrs, drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyswllt staff-myfyrwyr a helpu'r Cynrychiolwyr Cwrs i weithredu ar awgrymiadau a sylwadau eu cyfoedion.

COLEG RHYNGWLADOL BANGOR

Mae Prifysgol Bangor wedi llofnodi cytundeb partneriaeth 10 mlynedd gyda'r Oxford International Education Group (OIEG) i lansio Coleg Rhyngwladol Bangor (BIC), coleg sydd wedi ei sefydlu ar gampws y Brifysgol ac a fydd yn dysgu'r camau cyntaf o wahanol raddau israddedig ac ôl-radd integredig i fyfyrwyr rhyngwladol ym Mhrifysgol Bangor.

Mae disgwyl y bydd y bartneriaeth yn dyblu'r nifer presennol o fyfyrwyr rhyngwladol yn y Brifysgol dros y pedair neu'r bum mlynedd nesaf, gan ddechrau trwy dderbyn tua 50 o fyfyrwyr ym mis Medi 2016.

Bydd Coleg Rhyngwladol Bangor yn cynnig blwyddyn baratoadol mewn amrywiaeth o gyrsiau ym meysydd Busnes, y Gyfraith, y Cyfryngau, Gwyddorau Cymdeithas, Seicoleg,



Cyfrifiadureg a Pheirianeg Electronig. Bydd y Coleg hefyd yn cynnig llwybr Meistr ymgorfforedig mewn Astudiaethau Busnes.

Er mai Oxford International sydd â chyfrifoldeb am y ddarpariaeth academaidd, bydd yr holl gyfrifoldeb dros sicrhau ansawdd a chynnal safonau

Mr David Brown, Prif Weithredwr ac un o sylfaenwyr OIEG gydag Is-ganghellor Prifysgol Bangor, yr Athro John G Hughes, yn ystod y seremoni lofnodi.

ansawdd i'r holl addysgu yng Ngholeg Rhyngwladol Bangor yn parhau'n llwyr yn nwylo Prifysgol Bangor.

RHYNGWLADOLI



Ysgolheigion Chevening ar drip yn Mharc Cenedlaethol Eryri.



PARTNERIAETHAU RHYNGWLADOL

Llofnododd Canolfan Addysg Ryngwladol Prifysgol Bangor amrywiaeth o gytundebau partneriaeth gyda sefydliadau academiaidd dibynadwy ledled y byd yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Llofnodwyd cytundebau llwybrau academiaidd, sy'n caniatáu i fyfyrwyr drosglwyddo credydau o brifysgol sy'n bartner i raglenni Bangor, gydag *Abbey College Nigeria* ar gyfer Astudiaethau Busnes, y Gyfraith a Seicoleg; *Management Development Institute of Singapore* ar gyfer Seicoleg; *Ngee Ann Polytechnic Singapore* ar gyfer Seicoleg, a *South and City College UK*.

Sefydlwyd cytundebau matricwleiddiol sy'n caniatáu i fyfyrwyr o sefydliadau eraill gael

Yr Athro John G Hughes, Is-ganghellor gyda'r Athro Datuk Dr Yahaya Ibrahim, Is-ganghellor *Universiti Sultan Zainal Abidin, Kuala Terengganu*, Malaysia (UniSZA) gyda cynrychiolwyr o'r ddwy sefydliad yn ystod seremoni arwyddo memorandwm o ddealltwriaeth.

eu hystyried ar gyfer rhaglenni Prifysgol Bangor gyda'r *Emirates Institute of Banking and Financial Studies UAE* ar gyfer astudiaethau Bancio a Chyllid, Prifysgol Huanghuai Tsienia ar gyfer astudiaethau Busnes, a'r *Georgian College Canada* ar gyfer astudiaethau Busnes.

Llofnodwyd memoranda o ddealltwriaeth i archwilio cydweithio posibl rhwng Prifysgol Bangor a *Ho Chi Minh City University of Law Fietnam* ar gyfer cyrsiau'r Gyfraith; *Universidad Catolica de la Santisima Concepcion Chile* ar gyfer Gwyddorau Eigion; Prifysgol Ghana ar gyfer yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth; Prifysgol *Sun Yat-Sen* Tseinia ar gyfer Gwyddorau Eigion; Prifysgol Shanghai Tseinia ac *Universiti Sultan Zainal Abidin (UNISZA) Malaysia* ar gyfer rhaglenni'r Gyfraith.

YSGOLHEIGION CHEVENING

Croesawodd Prifysgol Bangor ymweliad gan grŵp o ysgolheigion Chevening a oedd yn astudio gradd Meistr mewn prifysgolion ar draws y DU. Mwynhaodd yr ysgolheigion benwythnos o ddiwylliant a gweithgareddau awyr agored mewn ardal o harddwch naturiol trawiadol yn y DU. Dysgodd y grŵp am hanes a diwylliant Cymru gan arbenigwyr ym Mhrifysgol Bangor, trwy ymweld â Chastell Caernarfon a Pharc Cenedlaethol Eryri, a rhoi cynnig ar ddawnsio gwerin traddodiadol mewn twmpath gyda'r nos.

Roedd un o'r ysgolheigion Chevening, Emil Kosi Amoah o Ghana, sydd newydd gwblhau MSc mewn Coedwigaeth Amgylcheddol ym Mhrifysgol Bangor, yn un o ddim ond chwe ysgolhaig Chevening drwy'r DU i dderbyn gwobr aur am gwblhau 75 awr o wirfoddoli. Mae'r wobwr yn cydnabod ymdrechion gwirfoddoli'r ysgolheigion yn ystod eu cyfnod yn y DU.

Trefnwyd seremoni ffarwel i'r ysgolheigion Chevening i ddyfodol, ac roedd yn wych clywed cymaint yr oeddent wedi mwynhau eu blwyddyn ym Mhrifysgol Bangor.

CYFRWNG CYMRAEG



ARWAIN Y SECTOR FEL Y PRIF DDARPARWR ADDYSG UWCH CYFRWNG CYMRAEG

Mae'r ystadegau diweddaraf yn glŷn ag astudiaethau cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgolion Cymru wedi datgelu fod Bangor yn parhau i arwain y sector fel y prif ddarparwr gyda mwy yn astudio cyfran helaeth o'u cwrs yn Gymraeg yma nag yn unman arall.

Mae 34% o'r holl fyfyrwyr yn y wlad sy'n astudio 40 credyd neu fwy bellach yn astudio ym Mhrifysgol Bangor.

Meddai'r Athro Jerry Hunter, Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg a Chysylltiadau â'r Gymuned): "Astudir mwy o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor nag yn unman arall yng Nghymru a bellach gellir astudio elfennau o bob pwnc academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg yma – o fodiwl unigol hyd at radd gyfan."

"Mae cyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg gwrdd, astudio a chymdeithasu gyda myfyrwyr o bob cwr o'r byd. Mae hyn yn rhan allweddol o'r profiad o fynychu

prifysgol, a rydym yn falch iawn o'r cyfleoedd a gynnigir i'n myfyrwyr ym Mangor i ehangu eu gorfelion."

Dengys yr ystadegau hefyd fod y niferoedd cyfwerth â llawn amser sy'n astudio trwy'r Gymraeg ym Mangor yn sylweddol uwch nag unman arall, ac ar ei lefel uchaf erioed ym Mangor.

Nid yn unig bod twf cyffredinol yn y ddarpariaeth Gymraeg ar draws y Brifysgol, ond gwelwyd cynnydd trawiadol mewn meysydd lle mae'r ddarpariaeth yn gymharol newydd gan gynnwys Seicoleg, Gwyddorau Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd. Yn ogystal â hyn, mae 70% o holl staff Bangor â galluoedd yn y Gymraeg.

HYRWYDDO'R DEFNYDD O'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, lansiodd Cynllun Strategol Cymraeg yn y Gweithle sy'n amlinellu sut y mae'r Brifysgol yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u defnyddio yn y gwaith. Un elfen o'r strategaeth ydy'r Cynllun Mentora Iaith Gymraeg.

Meddai Ruth Snape am gael ei mentora: "Mae'r cynllun mentora Cymraeg wedi bod yn help mawr i mi i ymuno a'r *chit-chat* yn y Swyddfa ac wedi amlygu'r ffaith nad oes angen iddyn nhw newid i'r Saesneg pan fydda'i yn cerdded i mewn. Mae fy mentor a mi yn trio siarad Cymraeg am awr pob dydd."

Dywedodd Mairwen Owen am fod yn fentor: "Mae'n braf cael cerdded i mewn i'r Llyfrgell yn y bore a chael fy nghrosawu gyda "bore da", yn hytrach na "good morning". Yn fwyfwy mae staff yn gofyn i mi anfon e-byst yn y Gymraeg atynt. Y nod oedd creu hyder ymysg y dysgwyr, a dw i'n sicr ein bod wedi gwneud hynny."

Mae'r Cynllun Mentora Iaith Gymraeg yn torri tir newydd. Mae'n cael ei gefnogi gan waith ymchwil PhD rhwng yr Ysgol Seicoleg a Chanolfan Bedwyr. Bwriad yr ymchwil ydy creu sail tystiolaeth ar gyfer y ffordd orau o gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Maes o law, gobeithir y bydd y sail tystiolaeth hon yn dylanwadu ar arferion mewn gweithleoedd dwyieithog ledled Cymru a thu hwnt.



Mairwen Owen (chwith) a Ruth Snape.

CANOLFAN BEDWYR YN DATHLU 20 MLYNEDD

Wedi'i sefydlu ym mis Awst 1996, mae Canolfan Bedwyr yn dathlu ei phen-blwydd yn 20 yn ystod 2016/17. Canolfan ym Mhrifysgol Bangor sy'n darparu gwasanaethau, ymchwil a thechnoleg ar gyfer y Gymraeg ydy Canolfan Bedwyr. Cafodd ei henwi ar ôl y diweddar Bedwyr Lewis Jones, Athro mewn iaith Gymraeg a llenyddiaeth, a'i hagar yn swyddogol gan ei weddw, Mrs Eleri Wynne Jones.

Gyda Dr Cen Williams yn Gyfarwyddwr ac Eleri Jones yn Swyddog Gweinyddol, dim ond dau aelod o staff oedd gan y ganolfan yn ei dyddiau cynharaf ac roedd ei gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cyrsiau gloywi iaith i staff a myfyrwyr a datblygu polisi dwyieithog y Brifysgol.

Dros y blynyddoedd, mae gwaith y ganolfan wedi ehangu i gynnwys cyfieithu, terminoleg, meddalwedd, technolegau iaith a chynllunio iaith yn ei holl amrywiaeth. Yn ogystal ag ymateb i anghenion y Brifysgol ei hun, mae'r Ganolfan hefyd wedi bod yn rhannu ei harbenigeddau gyda llu o gyrff, sefydliadau a chwmnïau allanol. Erbyn heddiw, mae'r Ganolfan yn cyflogi dros ugain aelod o staff.

WYDDOCH CHI?

fod yr ap *Geiriaduron* wedi'i



lwytho i lawr dros **71,000** o weithiau


fod *Cysill ar-lein* yn cael ei ddefnyddio i wirio testun



850 o weithiau bob dydd

mai Canolfan Bedwyr gyfieithodd

Blackboard y rhith amgylchedd dysgu am y tro cyntaf.



CANOLFAN
BEDWYR
1996 - 2016

fod yr Uned Gyfieithu yn cyfieithu yn agos at


4 miliwn o eiriau mewn blwyddyn



215+ o athrawon a darlithwyr



wedi cwblhau cwrs y Cynllun Sabothol ers ei sefydlu yn 2007



AGORIAD PONTIO

Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio.

Agorodd Pontio, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd y Brifysgol yn gynnwys ym mis Rhagfyr 2015, wrth i fannau addysgu a dysgu'r ganolfan gael eu defnyddio am y tro cyntaf ac wrth i Undeb y Myfyrwyr ymgartrefu yno ychydig yn ddiweddarach.

Lansiwyd Arloesi Pontio gan Syr John O'Reilly, cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol Gwybodaeth ac Arloesi Llywodraeth y DU. Traddododd y ddarlith gyhoeddus gyntaf gan ddweud bod angen i beirianwyr gofleidio creadigrwydd trwy ychwanegu'r celfyddydau i'r agenda gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM).

Yn ogystal â chynnig cyfleusterau addysgu a dysgu, cynhaliwyd rhaglen gelfyddydau eclectig yn y Ganolfan, yn cynnwys prif gynyrchiadau drama yn Theatr Bryn Terfel, amrywiaeth o ffilmiau fel rhai prif ffrwd 3D a enwebwyd am Wobrau'r Academi a chyfres o ddarllediadau byw'r *National Theatre Live* yn y sinema sy'n dal 200, nosweithiau comedi yn y Stiwdio a llawer

mwy. Mae miloedd eisoes wedi ymweld â'r ganolfan i fwynhau amrywiaeth o adloniant fel opera wedi'i seilio ar ymwybyddiaeth ofalgar, cyngherddau ysgolion a chymunedol a phantomeim cyfrwng Cymraeg.

Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys 11 o berfformiadau o'r ddrama rymus *Chwalfa* gan Theatr Genedlaethol Cymru, pan werthwyd pob tocyn. Roedd y ddrama yn olrhain hanes Streic y Penrhyn gyda chyfraniad y gymuned yn rhoi dimensiwn ychwanegol i'r ddrama.

Dychwelodd Cerddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl i Fangor ar ôl egwyl o 20 mlynedd i ymuno â'r pianydd Llŷr Williams ar lwyfan Bryn Terfel. Diddanwyd cynulleidfaoedd gan nifer o enwogion fel Christy Moore, *Only Men Aloud*, Ruby Wax a chomediwyr enwog fel Rich Hall a Russell Kane - gyda theatr lawn bob tro.



Dathlu ymatebion unigol i broblem gyffredinol mewn gweithdy creadigol dan arweiniad yr artist Lisa Carter (ar y chwith).

RHWYDWAITH DEMENTIA NEWYDD

Gyda nifer cynyddol o bobl yn byw â dementia ar draws gogledd Cymru, gall darganfod pa gymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno fod yn her. Sefydlwyd Rhwydwaith Ymarfer Cefnogol i Dementia Gogledd Cymru yn dilyn sylwadau gan ofalwyr a gymerodd rhan mewn astudiaeth gan Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia'r Brifysgol gyda chymorth gan Wobr Cyflymu Effaith ESRC Bangor. Nod y rhwydwaith yw dwyn ymarferwyr, academyddion, gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a phobl sydd yn byw â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr ynghyd i rannu arferion gorau a chydweithio ar ffyrdd newydd o weithio.

Dan arweiniad Dr Catrin Hedd Jones, mae'r rhwydwaith yn trefnu cyfarfodydd ar draws siroedd y gogledd i weithwyr ym maes dementia, a'r rheiny yr effeithir arnynt. Mae cyfarfodydd eisoes wedi cael eu cynnal yn Wrecsam, Dinbych a Phorthmadog lle bu 70 o bobl, yn cynnwys gweithwyr o amrywiol

broffesiynau ac 11 o bobl sy'n byw â dementia. Cafwyd gweithdy creadigol ym mhob cyfarfod a ysbrydlwyd gan heriau arwyddion dan arweiniad yr artist Lisa Carter a bu hwnnw'n gyfle anffurfiol i'r aelodau draffod a rhannu profiadau. Roedd barn a phrofiadau'r bobl yr effeithir arnynt gan ddementia yn arbennig o bwysig.

Dyweddodd Dr Jones: "Cawsom ymateb cadarnhaol yn ein cyfarfodydd cyntaf. Roedd y cyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn i'r cynrychiolwyr ac roedd y gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod ac i draffod y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. Cafodd yr aelodau rannu eu 'cynghorion' ynglŷn â sut i gefnogi pobl sy'n byw â dementia. Rydym yn gobeithio y bydd yr aelodau yn ffurfio cysylltiadau gwaith newydd a bydd cymorth newydd arloesol yn datblygu o'r trafodaethau a hwyluswyd yn y cyfarfodydd."



O'r chwith: Aniemma Ubong (myfyrwraig), Sophia Ingham (a oedd yn rhedeg y *repair café*, Medi Alaw Williams (myfyrwraig) a Mischa Ingham-Thomas ar y mynydd o ddillad.

CARU EICH DILLAD

Casglodd myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach at ei gilydd i gyfrannu oddeutu dwy dunnell o ddillad diangen fel rhan o 'Caru Eich Dillad Bangor' – digwyddiad a gynhaliwyd gan Caru Eich Dillad, Labordy Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor ac Undeb y Myfyrwyr, gyda'r bwriad o amlygu effeithiau amgylcheddol dillad sy'n mynd i wastraff.

Heriodd digwyddiad 'Caru Eich Dillad Bangor' y gymuned leol i dwrio'n ddwfn yn eu cypyrddau dillad a mynd â'u dillad diangen i siop dros dro Caru Eich Dillad yng Nghanolfan Siopa Deiniol. Derbyniwyd oddeutu 220 o fagiau o ddillad gan y cyhoedd – gan chwalu'r targed uchelgeisiol o un dunnell a osodwyd yn wreiddiol.

Rhoddyd un dunnell o'r mynydd o ddillad a gasglwyd i Age Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru ac Antur Waunfawr, a gefnogodd y digwyddiad. Cyfnewidiwyd oddeutu un dunnell o

ddillad a ddosbarthwyd i'r gymuned leol, gan ddarganfod cartrefi newydd i ddillad a oedd cyn hyn yn ddiangen.

Eglurodd Dr Einir Young, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor:

"Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi cael sioc i weld pa fath o beth oedd tunnell o ddillad, ac wedi synnu ein bod wedi llwyddo i gasglu dwy dunnell mewn amser mor fyr. Mae hyn yn dangos fel y mae gan gymaint ohonom ddillad diangen nad ydym yn eu caru yn cuddio yn ein cypyrddau dillad, sy'n mynd â gofod gwerthfawr. Gobeithiwn y bydd y profiadau a enillwyd drwy drwsio, uwchgytchu, drwy greu gwisgoedd newydd o hen rai, a chyfnewid ein heitemau ein hunain nad ydym bellach yn eu caru gydag eraill, er mwyn rhoi bywyd o'r newydd i'r dillad a gwisg newydd rattach i ni ein hunain, yn tyfu mewn poblogrwydd."